SYNIADAU ADDYSGU TRAWSGWRICWLAIDD

Mae'r syniadau a ganlyn yn awgrymiadau ymarferol er mwyn dysgu rhagor am bynciau bananas, bwyd a Masnach Deg mewn nifer o wahanol feysydd cwricwlaidd.

Mathemateg

- Cymharwch brisiau bananas yn eich siopau, archfarchnadoedd a marchnadoedd lleol. *Sut mae'r prisiau'n amrywio? Beth yw'r rhesymau posibl dros hyn? Faint mae bananas yn ei gostio fesul un? Fesul cilogram?*
- Ymchwiliwch i bwysau a hyd banana. *Faint mae bananas unigol yn ei bwyso? Pa mor hir yw banana? Faint o wahaniaeth sydd yna rhwng y fanana leiaf a'r fanana fwyaf mewn dyrnaid?*
- Gofynnwch i'r dysgwyr gasglu data pan fyddant yn mynd i siopa er mwyn canfod o ble mae rhai eitemau o fwyd yn dod a faint maent yn ei gostio. Gallai'r dysgwyr gofnodi eu data gan ddefnyddio'r tabl a ddarparwyd yn *Ymchwilio i'n bwyd* (Taflen gweithgaredd 1). Neu, gallech ddod ag eitemau o fwyd neu bacedi bwyd gyda chi fel bod y dysgwyr yn gallu gwneud y gweithgaredd hwn yn y dosbarth. *Noder: Wrth gofnodi'r gost, gofynnwch i'r dysgwyr nodi a yw'r gost hon fesul eitem ynteu yn ôl pwysau.*
    - Trafodwch y cwestiynau canlynol:
    - *A yw cost pob math o fwyd yr un fath? Pam rydych chi'n meddwl bod rhai eitemau o fwyd yn ddrutach na'i gilydd?*
    - *A oes cysylltiad rhwng tarddiad bwyd a'i gost? A yw eitemau o fwyd o rai gwledydd neu gyfandiroedd yn rhatach nag eitemau o fwyd o wledydd eraill? Os ydynt, beth yn eich barn chi yw'r rheswm dros hyn?*

Cymraeg

- Defnyddiwch dechneg chwarae rôl i actio taith banana o'r adeg y mae'n cael ei thyfu nes bydd yn cael ei gwerthu mewn archfarchnad (neu ei bwyta!) yn y DU. Gallai dysgwyr greu gwisgoedd a chelfi i gefnogi eu perfformiad.
- Ymchwiliwch i farddoniaeth sydd wedi'i hysbrydoli gan thema ffrwythau. Defnyddiwch y cyfieithiad o'r gerdd *'Fruits'* gan y bardd o Jamaica, Opal Palmer Adisa, fel man cychwyn ar gyfer casgliad o gerddi ar y thema hon (gweler *Ffrwythau* – Taflen gweithgaredd 2).
    - Gwnewch eiriadur dosbarth yn cynnwys lluniau o'r ffrwythau sydd yn y gerdd. Anogwch y dysgwyr i feddwl am ffyrdd o gael mwy o wybodaeth am y ffrwythau hyn. *A oes siopau neu farchnadoedd lleol sy'n gwerthu cynnyrch o'r Caribî? A oes unrhyw rai o'r ffrwythau hyn ar gael yn eich archfarchnad leol chi?*
    - Fel gweithgaredd ysgrifennu ar y cyd, cyfansoddwch gerdd am fwyd wedi'i hysbrydoli gan y gerdd "Ffrwythau". Gadewch i'r dysgwyr ddewis bwydydd y maent yn eu mwynhau, fel ffrwythau, cacennau a blasau hufen iâ. Dechreuwch trwy weithio gyda'ch gilydd i greu rhestr o fwydydd neu flasau posibl. Cefnogwch y dysgwyr i archwilio'r technegau a ddefnyddir yn y gerdd hon, cyn creu cerdd dosbarth sydd â strwythur tebyg.
- Gofynnwch i'r dysgwyr greu poster, taflen, neu bostiad blog i rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu am fananas a Masnach Deg.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gwyddoniaeth

- Nodwch, tynnwch lun a disgrifiwch swyddogaethau gwahanol rannau o'r planhigyn banana, er enghraifft dail, blodau, coesyn (neu foncyff) a gwreiddiau. Rhowch gynnig ar dyfu planhigyn banana, yna arsylwi'n ofalus ar ei ddatblygiad. Gallai'r dysgwyr amrywio amodau tyfu, er enghraifft golau, tymheredd a faint o ddŵr a roddir i'r planhigyn, i weld pa effeithiau y mae'r ffactorau hyn yn ei gael ar dwf y planhigyn banana.
- Ymchwiliwch i gylch bywyd planhigyn banana a chymharwch hyn â phlanhigion eraill (yn y DU neu mewn rhan arall o'r byd).
- Ymchwiliwch i'r amodau sydd eu hangen er mwyn i fananas aeddfedu neu bydru. Arsylwch ar y newidiadau o ran ymddangosiad, gwead a blas. *Pam y mae'r tu mewn i fanana yn newid ei liw ar ôl ichi bilio'r fanana? Oes modd rhwystro hyn rhag digwydd?*

Daearyddiaeth / Astudiaethau cymdeithasol

- Datblygwch ymwybyddiaeth dysgwyr o'u rôl mewn byd wedi'i globaleiddio a'u cysylltiadau â gwledydd eraill trwy'r bwyd y maent yn ei fwyta, y dillad y maent yn eu gwisgo, cyfathrebiadau a theithio.
    - Gofynnwch i'r dysgwyr fynd o amgylch yr ystafell a dod o hyd i rywun arall:
    - *sydd wedi bwyta bwyd o wlad wahanol yn ystod yr wythnos diwethaf*
    - *sy'n gwisgo dilledyn wedi'i wneud mewn gwlad arall*
    - *sy'n gallu dweud helo mewn iaith arall*
    - *sydd wedi ffonio, anfon neges destun neu anfon neges e-bost at rywun sy'n byw mewn gwlad arall yn ddiweddar*
    - *sydd â pherthynas neu ffrind sy'n byw mewn gwlad arall*
    - Dewch â'r dysgwyr yn ôl at ei gilydd a gofynnwch iddynt rannu eu hymatebion. Gallech ofyn i'r dysgwyr ddod at y bwrdd gwyn a phwyntio at y gwledydd y buont yn eu trafod ar fap o'r byd. Wrth i chi dderbyn ymatebion, gwnewch linell o'r DU i'r wlad a gafodd ei henwi. Erbyn y diwedd, dylech fod â llinellau yn ymestyn ar draws y byd i adlewyrchu cysylltiadau byd-eang aelodau o'r dosbarth.
- Gwnewch arolwg o siopau, archfarchnadoedd neu farchnadoedd lleol. *Faint o wahanol frandiau o fananas sydd ar gael yn y siopau yn eich ardal chi? O ble mae'r bananas yn dod? Pa ffrwythau eraill sydd yna, ac o ble mae'r rhain yn dod?*
- Nodwch elfennau daearyddol sy'n debyg ac yn wahanol rhwng gwlad sy'n tyfu afalau (er enghraifft y DU) a gwlad sy'n tyfu bananas (er enghraifft Colombia neu Weriniaeth Dominica).

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Hanes

- Ymchwiliwch i hanes y Caribî, sut y cafodd yr ynysoedd eu gwladychu gan Brydain, a'r cysylltiadau rhwng y fasnach gaethweision a phlanhigfeydd.
- Ymchwiliwch i'r modd y mae arferion siopa yn y DU wedi newid dros gyfnod a'r rhesymau dros hyn, er enghraifft datblygiadau o ran cysylltiadau masnach a chludiant.

Addysg Gorfforol

- Cefnogwch y dysgwyr i feddwl yn feirniadol am faterion a gwerthoedd sy'n gysylltiedig â thema tegwch. Meddyliwch sut y gall rheolau wneud chwaraeon yn deg, a thrafodwch enghreifftiau lle gellid addasu'r rheolau "arferol" er mwyn gwneud chwaraeon yn decach i'r rhai sy'n cymryd rhan. Trefnwch "Ddiwrnod Chwaraeon Tecach" sy'n gwbl deg i bawb sy'n cymryd rhan, gan gynnwys rhai o wahanol oedran, rhyw, gallu ac anghenion. Rhowch gynnig ar adnodd addysg '*A Sporting Chance?'* Oxfam (gweler y Sesiwn Addysg Gorfforol: '*Fairer Sports for All'*):

  www.oxfam.org.uk/education/resources/a-sporting-chance
- Dysgwch am bwysigrwydd Masnach Deg wrth gynhyrchu dillad ac offer chwaraeon. Defnyddiwch y fideo hwn gan y Sefydliad Masnach Deg i archwilio sut y mae peli pêl-droed yn cael eu gwneud yng ngogledd Pacistan a dysgu am y gwahaniaeth y mae Masnach Deg wedi'i wneud i fywydau gweithwyr ar waelod y gadwyn gyflenwi fyd-eang:

  schools.fairtrade.org.uk/resource/football/

Celf a Dylunio

- Edrychwch yn ofalus ar gasgliad o fananas. *Faint o wahanol liwiau sydd mewn un fanana? Faint sydd mewn dyrnaid neu mewn nifer o ddyrneidiau?* Rhowch gynnig ar dynnu llun banana o wahanol onglau.
- Dyluniwch nod Masnach Deg gwahanol. Anogwch y dysgwyr i feddwl sut y gallent ddefnyddio gwahanol batrymau, symbolau a lliwiau i gyfleu ystyr Masnach Deg; gwneud yn siŵr bod ffermwyr a gweithwyr yn cael pris tecach am eu gwaith, gwella amodau gwaith a gwarchod yr amgylchedd. Mae'r dysgwyr yn archwilio beth mae Masnach Deg yn ei olygu yn Uned 3 – *Beth yw Masnach Deg?*

Cerddoriaeth

- Cyfansoddwch alaw, cân neu rap i hyrwyddo Masnach Deg.
- Defnyddiwch adnodd addysg *'Sing Up'* Oxfam i archwilio materion byd-eang trwy gerddoriaeth. Rhowch gynnig ar *Ran 5: 'Mama Will You Buy Me A Banana?'* i ddatblygu sgiliau gwrando trwy weithio mewn grwpiau. Defnyddiwch y gweithgaredd dilynol i ystyried sut y mae perchnogaeth tir yn effeithio ar ffermwyr bach a'u bywoliaeth:

  www.oxfam.org.uk/education/resources/sing-up

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Dylunio a Thechnoleg

- Gwnewch gacen fanana (gweler *Rysáit cacen fanana* – Taflen gweithgaredd 3). Ceisiwch ddefnyddio cymaint ag sy'n bosibl o gynhwysion Masnach Deg.
- Edrychwch ar ddetholiad o labeli a deunydd pacio bananas. *Pa fathau o ddyluniadau sy'n cael eu defnyddio? Ydych chi'n meddwl bod y rhain yn effeithiol? Os ydych, pam?* 'Nawr dyluniwch a chrëwch eich rhai eich hun.
- Rhowch gynnig ar ryseitiau Caribïaidd gan ddefnyddio bananas gwyrdd wedi'u coginio *(plantains)*.
- Dyluniwch flwch y gellir ei ailddefnyddio er mwyn sicrhau nad yw banana'n cael ei gwasgu mewn bag ysgol neu fag cefn.

Cyfrifiadura

- Lluniwch daenlen neu gronfa ddata i ddangos o ba wledydd y mae rhai eitemau cyffredin o fwyd yn ein basgedi siopa'n dod. Ychwanegwch fwy o golofnau i gofnodi'r cyfandir gwreiddiol, milltiroedd bwyd a phris. Gallai'r dysgwyr geisio darganfod y pris fesul kg er mwyn gwneud unrhyw gymariaethau'n decach. Sortiwch y data gan ddefnyddio gwahanol feini prawf, ac archwiliwch unrhyw batrymau neu gydberthnasau. *Pa rai yw'r gwledydd neu'r cyfandiroedd mwyaf cyffredin? A oes cysylltiad rhwng y pellter a deithir gan eitem o fwyd a'i phris? A oes perthynas rhwng y cyfandir neu'r wlad y mae eitem yn dod ohoni a'i phris? Noder: Gallai'r dysgwyr gyfrifo milltiroedd bwyd gwahanol eitemau trwy ddefnyddio gwefan* www.foodmiles.com
- Lluniwch arolwg ar-lein i gasglu data am hoff ffrwythau'r dysgwyr. Yna gallai'r dysgwyr ddefnyddio tabled neu gyfrifiadur i gyflwyno data ar hoff ffrwythau eu dosbarth neu ysgol.

Iaith dramor / Iaith dramor fodern

- Ceisiwch ddarganfod pa ieithoedd swyddogol sy'n cael eu siarad yn y gwledydd y mae'r bananas rydym yn eu bwyta yn y DU yn dod ohonynt. Er enghraifft, Ffrangeg yn Côte d'Ivoire a Sbaeneg yng Ngholombia, Costa Rica, Periw a Gweriniaeth Dominica. *Pa ieithoedd eraill sy'n cael eu siarad yn y gwledydd hyn? Pa eiriau ac ymadroddion rydych chi'n eu gwybod yn yr ieithoedd hyn? Sut mae dweud "banana" yn yr ieithoedd hyn?*

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB / Y Sefydliad Masnach Deg

Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y llun hwnnw, ynghyd ag Oxfam a'r Sefydliad Masnach Deg. Ni chewch ddefnyddio'r lluniau na'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r lluniau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Ymchwilio i'n bwyd **Taflen gweithgaredd 1**

Yr eitem fwyd	*O ba wlad mae'n dod*	*Cost*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Ewch yn Bananas – Syniadau addysgu trawsgwricwlaidd

OXFAM

Ffrwythau

mangos
a bananas aeddfed
jeli cnau coco
a phomgranadau
jacffrwyth
a bawd drewllyd
eirin Mehefin
a sapodila
afalau siwgr
a micas sur
tamarind
a jimbeli
sudd cansenni siwgr
a *coolie-plum*
sêr-afal
ac afal cwstard
oren bogeiliol
a cheirios gwyllt

ffrwythau ym mhobman
yn fwrlwm o fywyd
o flaen
merched y farchnad
prynwch rai
a mwynhau eu blas

Taflen gweithgaredd 2

Nodiadau:

Jeli cnau coco – *jelly coconut*

Pomgranadau - *pomegranates*

Jacffrwyth – *jack-fruit*

Bawd drewllyd – *stinking-toe*

Eirin Mehefin – *june plum*

Sapodila – *nase-berry*

Afalau siwgr – *sweetsop*

Micas sur – *sour-sop*

Sudd cansenni siwgr - *cane-juice*

Sêr-afal – *star-apple*

Afal cwstard – *custard-apple*

Oren bugeiliol – *navel orange*

Ceirios gwyllt – *wild cherries*

Cyfieithiad o'r gerdd *Fruits* gan Opal Palmer Adisa, awdur o Jamaica

Am y bardd: Cafodd Opal Palmer Adisa ei magu yn y Caribî. Roedd ei theulu'n byw ar ystadau siwgr yn bennaf, lle roedd ei thad yn gemegydd yn gweithio yn y purfeydd siwgr a'i mam yn rheoli swyddfeydd yr ystâd. Mae ysgrifennu wedi bod yn rhan o fywyd Opal erioed, a chyhoeddodd ei cherdd gyntaf pan oedd yn dair ar ddeg oed.

I gael rhagor o wybodaeth: www.opalpalmeradisa.com

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Ewch yn Bananas – Syniadau addysgu trawsgwricwlaidd

Rysáit cacen banana

Taflen gweithgaredd 3

Cynhwysion

- 250g (8oz) blawd codi gwyn organig
- 1/4 nytmeg Masnach Deg, wedi'i falu (yn anodd dod o hyd iddo, ond mae'n bodoli, wir!)
- Un llwy de o sinamon Masnach Deg
- 125g (4 owns) siwgr castr Masnach Deg
- 125g (4owns) margarîn organig
- Croen lemon Masnach Deg wedi'i gratio
- Dau wy maes organig
- Tair banana Masnach Deg ganolig, wedi'u malu â fforc (mae'n well os ydynt ychydig yn hen ac yn feddal)
- Llond llaw o syltanas Masnach Deg
- Chwe llwy fwrdd orlawn o fêl Masnach Deg
- Un fanana Masnach Deg galed gyfan (dewisol)
- Menyn organig i'w daenu ar y gacen ar ôl ei choginio (dewisol)

Dull

Cynheswch y popty i 180°C/Marc Nwy 4.

Rhidyllwch y blawd, nytmeg a sinamon i bowlen, a rhwbiwch y margarîn i mewn. Gan ddefnyddio llwy bren, plygwch y siwgr, wyau, croen lemon, syltanas, bananas wedi'u malu a mêl i mewn.

Tywalltwch hanner y gymysgedd i mewn i'r tun, rhowch y fanana galed gyfan i mewn (dewisol) yna ychwanegwch weddill y gymysgedd.

Pobwch am 1¼ i 1½ awr neu nes bydd sgiwer rydych yn ei wthio i mewn i'r gacen yn dod allan yn lân (peidiwch â'i wthio i mewn i'r fanana gyfan!).

Gadewch i'r gacen oeri yn y tun am ddeng munud cyn ei thynnu o'r tun a'i rhoi ar rac i oeri. Torrwch sleisen ohoni, taenu menyn organig ar y sleisen (dewisol) a'i bwyta!

Ffynhonnell

Anfonwyd y rysáit gan Liam, ymwelydd â gwefan *Cool Planet for Children* Oxfam. Nid yw *Cool Planet* yn bodoli mwyach ond mae gwefan Addysg Oxfam (Oxfam Education) yn cynnwys digon o ffyrdd eraill i'ch helpu i ennyn diddordeb eich dysgwyr yn y byd o'u cwmpas. Gweler: www.oxfam.org.uk/education

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.
Ewch yn Bananas – Syniadau addysgu trawsgwricwlaidd

OXFAM